POLISI AMDDIFFYN PLANT TYRFE TAWE

Mae Tyrfe Tawe yn cydnabod mai plant yw aelodau mwyaf di-amddiffyn yn ein cymdeithas. Nid oes ganddynt hawl i bleidleisio na llwybrau eraill at bwer. Felly y mae gan oedolion mewn awdurdod gyfrifoldeb i sicrhau fod hawliau plant a bobl ifanc yn cael eu cynrychioli a'u hamddiffyn.

Gan fod Tyrfe Tawe yn cynnal gweithdai i bobl ifanc a digwyddiadau i bobl o bob oed mae'r polisi hwn yn cydnabod ac yn adlewyrchu:
Deddf Plant 1989
Confensiwn y plentyn y Cenhedloedd Unedig

Mae Tyrfe Tawe am sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i amddiffyn plant rhag unrhyw fath o niwed mewn unrhyw sefyllfa ble y down i gysylltiad â phlant. Rydym yn derbyn fod dyletswydd ar bawb sy'n ymhel â'r wyl i atal unrhyw gamdriniaeth o blant a bydd y polisi hwn yn hysbys i bawb o fewn pwyllgor Tyrfe Tawe.

Bydd Tyrfe Tawe yn sicrhau bod ystyriaeth gofynion iechyd a diogelwch i bob sefyllfa y mae gan Tyrfe Tawe gyfrifoldeb amdano.

Sicrheir na fydd unrhyw aelod o bwyllgor Tyrfe Tawe, Artistiaid, Tiwtoriaid Gweithdai nac unrhyw un arall sy'n ymhel a'r wyl neu wedi bod yn ymgymryd â gweithgaredd o dan adain yr wyl – yn cael bod gyda un plentyn ar eu pen eu hunain. Cynghorir aelodau i sicrhau eu bod bob amser o fewn golwg rhywrai eraill ac nad ydynt i dreulio amser gydag un plentyn ar eu pen eu hunain.

Os oes angen gweithio gyda phlant ar ryw adeg sicrheir fod mwy nag un oedolyn yn bresennol bob amser.

Os bydd angen chwilio am bobl allanol i helpu gyda phrosiect neu yn penodi gwirfoddolwyr neu staff i weithio gyda phlant, cymerir y camau canlynol i'w gwirio:

a) Gofyn am o leiaf un geirda amdanynt
b) Rhoi cyfweliad iddynt
c) Gofyn am wiriad heddlu arnynt os yn briodol (ar ôl cael eu caniatâd)

Os oes unrhyw amheuaeth fod un o'r plant sydd mewn cysylltiad gyda'r wyl yn dioddef camdriniaeth o unrhyw fath yn unhrywle, bydd aelod o bwyllgor Tyrfe Tawe yn cysylltu yn syth â'r llinell gymorth amddiffyn plant gan yr NSPCC (tel. 08081 002 524).